

Y CYFANSODDIAD ADRAN 10

CYD-BWYLLGORAU

10.1 Cyflwyniad

Ceir nifer o amgylchiadau lle y bydd hawl gan y Cyngor neu'r Bwrdd Gweithredol i gyflawni swyddogaethau penodol ar y cyd ag awdurdod lleol arall.

10.2 Trefniadau i Hybu Lles

Er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol, neu amgylcheddol ei ardal, caiff y Bwrdd Gweithredol:

10.2.1 lunio trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw unigolyn neu gorff;

10.2.2 cydweithredu â, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw unigolyn neu gorff; ac

10.2.3 arfer ar ran yr unigolyn neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r unigolyn neu'r corff hwnnw.

10.3 Trefniadau ar y Cyd

10.3.1 Caiff y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol a/neu eu gweithrediaethau i arfer swyddogaethau nad ydynt yn Swyddogaethau Gweithredol yn unrhyw un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan, neu gynghori'r Cyngor. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys penodi cyd-bwyllgor gyda'r awdurdodau lleol eraill hyn.

10.3.2 Caiff y Bwrdd Gweithredol sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i arfer swyddogaethau sy'n Swyddogaethau Gweithredol. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys penodi cyd-bwyllgorau gyda'r awdurdodau lleol eraill hyn. Ac eithrio fel y nodir isod, neu fel y caniateir gan y Gyfraith neu sy'n ofynnol gan y Gyfraith, caiff y Bwrdd Gweithredol benodi Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn unig i gyd-bwyllgorau o'r fath, ac nid oes angen i'r Aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

10.3.3 Caiff y Bwrdd Gweithredol benodi Aelodau i Gyd-bwyllgor o'r tu allan i'r Bwrdd Gweithredol pan fydd gan y Cyd-bwyllgor swyddogaethau ar gyfer rhan o ardal y Cyngor yn unig a bod yr ardal honno'n llai na dwy ran o bump o'r awdurdod lleol hwnnw, yn ôl arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, caiff y Bwrdd Gweithredol benodi i'r Cyd-bwyllgor unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar gyfer adran etholiadol yn yr ardal. Nid yw gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

10.4 Mynediad at Wybodaeth

10.4.1 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 yn berthnasol.

10.4.2 Os yw pob Aelod o Gyd-bwyllgor yn Aelodau o'r Gweithrediaeth ym mhob un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan, yna bydd ei drefn mynediad at wybodaeth yr un fath â honno sy'n berthnasol i'r Bwrdd Gweithredol.

10.4.3 Os yw'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn unrhyw awdurdod sy'n cymryd rhan, yna bydd y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol.

10.5 Dirprwyo i ac o Awdurdodau Lleol Eraill

10.5.1 Gall y Cyngor ddirprwyo Swyddogaethau Anweithredol i awdurdod lleol arall neu, os yw gweithrediaeth awdurdod lleol arall yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny, i'r weithrediaeth honno.

10.5.2 Gall y Bwrdd Gweithredol ddirprwyo Swyddogaethau Gweithredol i awdurdod lleol arall neu weithrediaeth awdurdod lleol arall mewn rhai amgylchiadau.

10.5.3 Mae'r hawl i benderfynu pa un ai derbyn dirprwyo o'r fath gan awdurdod lleol arall ai peidio wedi'i neilltuo i'r Cyngor Llawn.

10.6 Contractio Allan

Caiff y Cyngor (o ran Swyddogaethau Anweithredol) a'r Bwrdd Gweithredol (o ran Swyddogaethau Gweithredol) gontractio allan i gorff neu sefydliad arall, swyddogaethau:

10.6.1 y ceir eu harfer gan Swyddog ac sy'n ddarostyngedig i orchymyn o dan adran 70 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994; neu

10.6.2 o dan drefniadau contractio lle y mae'r Contractwr yn gweithredu fel Asiant y Cyngor o dan egwyddorion contractio arferol, ar yr amod na ddirprwyir pŵer y Cyngor i wneud penderfyniadau dewisol.